Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mesurau perfformiad sgiliau

Cyflawni ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru

Mesurau perfformiad sgiliau

Cyflawni ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru

Cynulleidfa
Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-19 yng Nghymru, yn cynnwys cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol; awdurdodau lleol; partneriaethau sgiliau rhanbarthol; colegau addysg bellach; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; sefydliadau addysg uwch; undebau llafur; Canolfan Byd Gwaith; Gyrfa Cymru a Sefydliadau Dyfarnu.

Trosolwg
Mae'r mesurau perfformiad sgiliau wedi'u datblygu yn sgil ymrwymiad a wnaed yng nghynllun gweithredu sgiliau Llywodraeth Cymru. Nod y mesurau yw cynnal yr ymrwymiad i wella'r ystod sgiliau cyffredinol yng Nghymru gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion. Bydd y mesurau'n cael eu defnyddio fel pwynt cyfeirio parhaus wrth werthuso polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd y mesurau yn gweithredu fel dull o asesu'r cynnydd a wneir i gyflawni'r uchelgais hirdymor ar gyfer y system sgiliau yng Nghymru, uchelgais sydd wedi'i nodi yn y datganiad polisi ar sgiliau. Caiff atodiad technegol ei gyhoeddi i ategu'r ddogfen hon.

Camau i'w cymryd
Nid oes angen cymryd camau pellach.

Rhagor o wybodaeth
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Matthew Hicks
Yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663891
e-bost: employmentandskillspolicy@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig
Mesurau perfformiad sgiliau: atodiad technegol (Llywodraeth Cymru, 2014); *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Datganiad polisi ar sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Datganiad polisi ar addysg uwch* (Llywodraeth Cymru, 2013); *Adolygiad cynllunio a chyllido ôl-16: adroddiad terfynol* (Llywodraeth Cymru, 2013).

ISBN digidol 978 1 4734 2306 0
© Hawlfraint y Goron Medi 2014
WG22848

Cynnwys

Ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru **2**

Swyddi a thwf 3

Cynaliadwyedd ariannol 3

Cydraddoldeb a thegwch 3

Meincnodi sgiliau’n rhyngwladol 4

Ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru

Mae'r system sgiliau yng Nghymru yn newid. Dros y degawd nesaf bydd rhaid iddi addasu er mwyn delio ag amryw o heriau os ydym am sicrhau ei bod yn parhau yn gystadleuol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r heriau hyn yn cael eu disgrifio yn y datganiad polisi ar sgiliau[1] a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, ac yn rhoi'r rhesymeg y tu ôl i'r camau a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru[2], a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'n bwysig bod *pob un* o'r rhanddeiliaid yn cydnabod bod rhaid cymryd cyfrifoldeb ar y cyd ac yn sylweddoli maint yr ymrwymiad sydd ei angen i gyflawni'r uchelgais ar gyfer system sgiliau ddiwygiedig yng Nghymru. Bydd cynyddu buddsoddiad yn y system sgiliau, yn enwedig gan gyflogwyr, yn sicrhau y gall Cymru barhau i fod yn gystadleuol. Bydd mesur ein perfformiad a meincnodi ein hymdrechion yn rhyngwladol yn nodwedd bwysig i'n cadw ar y trywydd iawn i gyflawni'r newidiadau yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r **mesurau perfformiad sgiliau** a fydd yn ysgogi cyflawni'r cynllun gweithredu sgiliau. Wrth ddatblygu'r mesurau, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd orau o wella'n sefyllfa fel cenedl a chynnal y ffocws ar swyddi, twf a threchu tlodi. Gellir crynhoi ffocws pob mesur i bedwar prif grŵp:

- **Swyddi a thwf** – Gwella'r lefelau cyflogaeth a chynhyrchiant.
- **Cynaliadwyedd ariannol** – Sicrhau bod cydbwysedd priodol a chynaliadwy o gyllid ar gael i gefnogi'r system sgiliau oddi wrth y llywodraeth, cyflogwyr, unigolion a thrwy gyllid Ewropeaidd.
- **Cydraddoldeb a thegwch** – Darparu cyfle cyfartal i unigolion gael mynediad at gefnogaeth sgiliau a chyflogaeth ôl-19.
- **Meincnodi sgiliau'n rhyngwladol** – Gwella proffil sgiliau Cymru i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol fel gwlad.

Bydd y mesurau perfformiad sgiliau o fudd i gyflogwyr, partneriaid cyflawni, undebau llafur a sefydliadau diwydiant/cyrff cynrychioli cyflogwyr.

Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud, os bydd angen, i gysylltu'r mesurau perfformiad sgiliau â gwelliannau ehangach a wneir i addysg a hyfforddiant cyn-19 a'r sector Addysg Uwch, yn ogystal ag ar gymariaethau rhyngwladol a'r defnydd o sgiliau.

Mae'r mesurau wedi'u hadeiladu ar ystod o ddeunyddiau cyfeirio sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill fel Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.

---

[1] Datganiad Polisi ar sgiliau www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy

[2] Cynllun Gweithredu Sgiliau www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y mesurau yn: Mesurau Perfformiad Sgiliau: atodiad technegol[3].

Swyddi a thwf

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar yr ymgyrch i gefnogi swyddi sy'n galw am sgiliau uwch a'r gwelliannau cysylltiedig y gellir disgwyl eu gweld yng Nghymru o ran cyflogaeth a lefelau cynhyrchiant. Mae'r mesur hefyd yn canolbwyntio ar anghenion cyflogwyr am sgiliau Cymraeg yng Nghymru. Mae'r dangosyddion a gaiff eu monitro yn cynnwys (rhoddir y ffynhonnell hefyd):

- newidiadau yn y **gyfradd gyflogaeth** o gymharu â'r DU (Arolwg o'r Llafurlu)
- newidiadau mewn **cynhyrchiant** o gymharu â'r DU, ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr (Cyfrifon Rhanbarthol)
- bylchau sgiliau oherwydd diffyg **sgiliau Cymraeg** (Arolwg Sgiliau Cyflogwyr)

Cynaliadwyedd ariannol

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cydbwysedd priodol a chynaliadwy o gyllid ar gael i gefnogi'r system sgiliau oddi wrth y llywodraeth, cyflogwyr, unigolion a, lle bo'n briodol, drwy gyllid Ewropeaidd. Y dangosydd a gaiff ei fonitro fydd:

- y bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran lefel **buddsoddiad cyflogwyr yn sgiliau eu gweithwyr** (Arolwg Sgiliau Cyflogwyr)

Cydraddoldeb a thegwch

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cyfle cyfartal i unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael mynediad i gymorth cyflogaeth a sgiliau wedi iddynt droi'n 19 oed. Y dangosydd a gaiff ei fonitro fydd:

- data ar **gydraddoldeb mynediad** i raglenni cyflogaeth a sgiliau (Llywodraeth Cymru / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru)

[3] *Mesurau Perfformiad Sgiliau: atodiad technegol* (Llywodraeth Cymru, 2014)

Meincnodi sgiliau’n rhyngwladol

Mae’r mesur hwn yn canolbwyntio ar wella proffil sgiliau Cymru yn unol â swyddi’r dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol a’n bod yn cyflawni ein potensial fel cenedl hyfedr. Mae’r dangosyddion a gaiff eu monitro yn cynnwys:

- **proffil cymwysterau** oedolion o oedran gweithio (Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth)
- bylchau sgiliau oherwydd diffyg **Sgiliau Hanfodol** (Arolwg Sgiliau Cyflogwyr).